

CYNHYRCHU FFRWYTHAU YN FFERM NICHOLASTON

**CALU
FFERM
ARDDANGOS
FFEITHLEN**
Mawrth 2009



RHAGARWEINIAD

Ar 26 Mawrth 2009, cynhaliodd fferm Nicholaston, ger Abertawe, weithdy i CALU, yn canolbwyntio ar gynhyrchu ffrwythau. Yn y ffeithlen hon, ceir adolygiad ar y gweithdy. Mae'r fferm yn fusnes sydd wedi hen ennil ei blwyf, lle caiff pobl hel eu ffrwythau eu hunain, a hefyd yn safle carafannau poblogaidd. Saif Nicholaston ar ffridd ar lethr esmwyth, yn wynebu tua'r de, gan edrych ar Tor Bay.



CEFNDIR

Mae fferm Nicholaston yn eiddo i'r teulu Beynon ers pum cenhedlaeth. O'r blaen, roedd y safle'n fferm gymysg gyda gwartheg eidion a llaeth, defaid a thatws. Mae'r fferm 44.5ha yn cynnwys 10ha ar gyfer cynhyrchu ffrwythau a llysiau. Defnyddir gweddill y tir fel tir pori i ddefaid, ar gyfer gwersyll a'r maes carafannau, ac i dyfu ychydig o gnydau grawn.

Mae'r safle ryw 75m uwchlaw lefel y môr, ac yn cael glawiad cyfartalog o 1500mm y flwyddyn. Yn bennaf, lôm tywodlyd ysgafn yw'r pridd.

CNYDAU

O ran cnydau hel-eich-hun, mae'r fferm yn tyfu mefus, cyrren cochion, mafon a gwsberis. Mae'r fferm hefyd yn tyfu riwbob, asbaragws, tatws a ffa nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cynnyrch 'hel eich hun'. Hectar o fefus oedd y cnwd diweddaraf i'w blannu ar y safle. Mae hyn yn rhan o gylich plannu cyfredol i sicrhau cynnyrch helaeth a phlanhigion iach ar y safle.

MEFUS

Pedwar math o fefus a dyfir ar y safle: Christine, Eros, Symphony a Judy Bell. Bydd Christine yn barod i'w chodi tua diwedd Mai a dechrau Mehefin, tra bydd Eros, ail gwnd cynnar, yn aeddfedu tua dechrau Gorffennaf. Plennir mefus ar system welyau; golyga hyn fod dwy res o blanhigion mefus yn cael eu plannu tuag un medr ar wahân cyn gadael iddynt gydblythu i greu gwely. Mae'r system hon wedi'i datblygu ar y safle am nad oedd y system fwy confensiynol o welyau uchel mewn rhesi sengl yn gweithio.

Dim ond am 3 blynedd y tyfir cnydau ar y gwelyau mefus, cyn eu tynnu a chreu safle newydd. I gadw'r cylch i droi, plennir gwelyau newydd bob blwyddyn. Archwilir y lleiniau mefus ym mis Mawrth, i wirio rhag unrhyw broblemau o ran plâu neu glefydau. Wrth gerdded o gwmpas y cnwd, archwilir cefn dail y mefus (a'r cnydau eraill) rhag ofn fod yno blâu a chlefydau cudd.

CYRREN COCHION

Ar y safle, tyfir dau fath, sef Jonkheer Van Tets a Rovada. Mae Jonkheer Van Tets yn barod i'w codi yng Ngorffennaf, tra bydd Rovada yn aeddfedu tua diwedd Gorffennaf – Awst. Mae'r caeau ar lethrau ac yn agored i wyntoedd, felly mae hen fath o gyrren cochion a adawyd i dyfu yn gweithredu fel tarian, gan gysgodi'r llwyni cyrren cochion dwys.

MAFON

Tyfir cansenni mafon yn ôl y system lasio Albanaidd. Mae hyn yn golygu clymu pob cansen mafon arfaethedig wrth wifren ar hyd y rhes. Mae angen i'r holl gansenni fod tua 10cm ar wahân ac wedi'u dal â llinyn. Llinyn yw'r



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu
Gwledig Ewrop yn Buddsoddi
mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for
Rural Development: Europe Investing in
Rural Areas



Centre for Alternative Land Use
Canolfan Defnydd Tir Amgen



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

deunydd mwyaf addas, am ei bod yn hawdd ei dynnu yn y flwyddyn ddilynol, pan eir trwy'r broses o'r newydd. Yna, taclusir top pob cansen hyd at uchder y ben, er hwyluso eu codi ac i leihau difrod gan y gwynt i'r planhigyn a'r cnwd, fel a ddangosir yn Ffig 1.



Ffigur 1: System lasio Albanaidd

Gellir hefyd dyfu cansenni mafon ar system gwifren ddwbl, sef lle tyfir cansenni'r ffrwythau rhwng dwy res o wifrau. Rhoddwyd y system ddwy res ar brawf ar safle Nicholaston. Fodd bynnag, roedd yn anaddas ar gyfer y safle oherwydd y gwyntoedd cryf oedd yn chwythu o'r môr.

ASBARAGWS

Gijnlim yw'r math a dyfir yn Nicholaston. Mae'n fath gwrywaidd o asbaragws sy'n aeddfedu tua dechrau'r tymor, yn gynhyrchiol iawn, ac yn cynhyrchu gwaywffyn gwyrdd canol o drwch canolig â blaenau porffor caeëdig.

Mae'r cnwd asbaragws yn boblogaidd iawn ymysg cwsmeriaid yn siop y fferm. Ychwanegir halen (NaCl) at y cnwd ar gyfradd un dunnell fetrig i bob hectar bob blwyddyn. Dangoswyd bod asbaragws

yn ymateb i ddogrn o halen; fodd bynnag, nid yw'n llwyr angenrheidiol. Mae'r cnwd a dyfir yn Nicholaston wedi dangos arwyddion o wella ar ôl cael halen.

RIWBOB

O fewn y llain asbaragws, ceir rhes o riwbob. Mae'r cnwd gwerth uchel hwn yn tyfu'n dda iawn ar y safle. Victoria yw'r math a dyfir; mae ganddo goesyn llydan a dail trymion; gall hwn ddiodeff yn sgil difrod gan y gwynt. Ychydig yn unig o broblemau y mae plâu a chlefydau yn eu hachosi i riwbob. Mae'n gymharol hawdd ei gywain.

GWSBERIS

Mae gwsberis yn gnwd poblogaidd yn Nicholaston. Invicta yw'r [rif fath a dyfir. Mae'n cynhyrchu aeron mawr gyda blas da. Ar goesyn y tyfir gwsberis ran amlaf. Yn Nicholaston, cadwyd y llwyni'n nes at y ddaear fel llwyni, yn hytrach na'u codi ar goes.

Fel rhan o'r rhaglen chwistrellu ar gyfer y safle, defnyddir Roundup (a glyffosad yn gynhwysyn gweithredol) yn Awst neu Fedi er mwyn dileu chwyn o'r ardal o gwmpas gwaelod y planhigion.

Ffrwythlonir y gwsberis ym Mawrth â phorthiant 16:8:24 NPK (neu gyffelyb) ar gyfradd 350kg / ha.

PROBLEMAU

Er bod y tir yn Nicholaston yn gynhyrchiol iawn, gallai problemau megis gwywo ferticiliwm ddal i gael effaith andwyol ar blanhigion mefus. Felly, mae system gylchol dda ar gyfer y cnydau mefus yn hanfodol. Bydd llawer o flaen-gynllunio a chadw cofnodion da ar gnydau blaenorol yn sicrhau nad yw'r safle'n mynd yn brin o dir cynhyrchiol.

Gall adar fod yn broblem ar y safle; fodd bynnag, bydd tyfu unrhyw gnwd o ffrwythau yn yr awyr agored yn arwain at rai colledion yn sgil pla; ychydig iawn o golledion a geir yn Nicholaston.

EDRYCH YMLAEN

Mae Trevor, Lynwen a Tom Beynon yn awyddus i ddatblygu'r busnes. Hoffent wneud mwy o gynhyrchion sy'n ychwanegu gwerth, er enghraifft, ffrwythau wedi'u rhewi, trwyth ffrwyth, a sudd. Bydd gwneud cynhyrchion sy'n ychwanegu gwerth hefyd yn defnyddio ffrwythau sy'n weddill, a allai, fel arall, fynd yn wastraff.